LEWIS, TITUS (1773 - 1811), gweinidog Bedyddwyr

Enw: Titus Lewis
Dyddiad geni: 1773
Dyddiad marw: 1811
Rhiant: Lewis Thomas
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: William Joseph Rhys

Ganwyd 21 Chwefror 1773 yng Nghilgeran, mab Lewis Thomas, gweinidog Cilfowyr, a'i fam yn chwaer i D. Evans y Dolau. Dysgodd grydda gyda'i dad. Bedyddiwyd ef ym Mlaenywaun, dechreuodd bregethu yn 1794, ac ordeiniwyd ef yno yn 1798. Gan iddo briodi, 20 Tachwedd 1800, â merch o Gaerfyrddin na hoffai Landudoch, symudodd i Gaerfyrddin yn 1801 i fugeilio'r Porth Tywyll, ond daliodd i weinyddu'r cymun yn Blaenywaun. Yr oedd yn enwog fel amddiffynnydd Calfiniaeth, yn ei bregethu ac yn ei ysgrifeniadau. Yn 1805 cyhoeddodd *A Welsh-English Dictionary, Geirlyfr Cymraeg a Saesneg* (ail arg., 1815). Yn 1806, gyda chymorth Joseph Harris, cafwyd *Y Drysorfa Efangylaidd*, ef yn defnyddio'r ffugenwau ' Obadiah ' a ' Gaius,' meddai Thomas Shankland, a Harris ' Adelphos o Abertawe ' - eithr dau rifyn a ymddangosodd. Ei brif waith oedd *Hanes ... Prydain Fawr*, 1810, cyfrol 624 o dudalennau. Cytunodd Titus Lewis, Christmas Evans, a Joseph Harris i gyfieithu yn Gymraeg esboniad Dr. Gill ar y *Testament Newydd* - Lewis yn olygydd ac i gywiro'r proflenni. Eithr gan iddo farw ar ôl cwplau'r Actau, nid ymddangosodd ychwaneg, prawf mai ef a ddug y baich trymaf. Gweithiau eraill Titus Lewis oedd *Holwyddoreg ar holl bynciau crefydd*; *Esboniad ar y cyffelybiaethau*, 1811 (cyfieithiad o waith Keach); *Testament Llogell*, gyda nodiadau byrion; *Llyfr Rhyfeddodau*, 1808; *Mawl i'r Oen; Pigion o Hymnau*, 1810; a phethau eraill. Fe'i gordrethodd ei hun, a bu farw 1 Mai 1811.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Enwogion y Ffydd (1880)

Seren Gomer, 1825, 1857

Trafodion Cymdeithas Hanes Bedyddwyr Cymru, 1908-9, 1930, 1942

T. Rees, *Hanes eglwysi y Bedyddwyr yn Blaenywaun; Gerazim; Penuel; Cemaes; a Tabernacl, Trewyddel, sir Benfro* (Llangollen 1899)

Y Gwyddoniadur Cymreig (1889–96)

llyfrau eglwys Blaen-y-waun yn Ll.G. C.

Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy, 1937

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 315533856

Wikidata: Q7810316

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu